Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Diolch yn fawr am bob cydweithrediad wrth i ni barhau i ymateb i her y coronafeirws.**

**Nodyn atgoffa** - diolch am eich cydweithrediad wrth hebrwng eich plant i'r ysgol yn y bore a'u casglu ar ddiwedd y dydd. **Hoffwn eich atgoffa i gadw at y canllawiau cenedlaethol wrth adael ardal yr ysgol ac osgoi ymgasglu mewn grwpiau (gweler poster ar ddiwedd y llythyr)**

**Plant mewn Angen** - gwahoddir disgyblion i wisgo gwisg ffansi i'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 13eg. Os ydych yn dymuno gallwch ddanfon unrhyw gyfraniad mewn amlen tuag at yr apêl. Mi fydd y bocs casglu arian penodol ym mhob dosbarth er mwyn sicrhau trefniadau addas ar gyfer iechyd a diogelwch wrth drin arian.

**Adroddiad diweddaraf Cadeirydd y Llywodraethwyr i rieni / gwarcheidwaid** – Mae cyfnod Owain Schiavone fel Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi dod i ben, hoffwn ddiolch iddo am bob cydweithrediad a chefnogaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gweler isod darn agoriadol adroddiady Cadeirydd eleni - mae'r adroddiad i'w weld yn ei gyfanrwydd yn adran y Rhieni>Llywodraethwyr ar wefan yr ysgol.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith**

**R C Williams, Pennaeth, 06/11/2020** prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rwy'n falch iawn fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol i gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ysgol Gymraeg Aberystwyth.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth, y Dirprwy, yr holl athrawon, cynorthwywyr dysgu, staff ategol, y rhieni / gwarcheidwaid ac wrth gwrs y disgyblion am eu gwaith caled dros y flwyddyn, ac am chwarae eu rhan yn llwyddiant cyson yr ysgol.

Byddai wrth gwrs ym amhosib cyflwyno'r adroddiad hwn heb gydnabod y sefyllfa eithriadol mae'r ysgol wedi'i hwynebu eleni, fel pob un arall. Ond, dyma gyfle hefyd i fynegi balchder yn y modd mae'r ysgol wedi llwyddo i ymdopi â'r sefyllfa anarferol hon, a goresgyn yr heriau sydd wedi codi mewn modd proffesiynol ac effeithiol.

Roeddwn yn arbennig o falch o'r ffordd yr aeth y tîm ati i gyfathrebu'n gyson â'r disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid ar ddechrau'r cyfnod clo gan wneud ymdrech i leddfu pryderon gorau posib ar y naill law, a dosbarthu deunydd addysgiadol defnyddiol i'w gwneud gartref ar y llall. Wrth i'r cyfnod clo ymestyn, datblygwyd system effeithiol o gyfathrebu a rhannu gwaith dros Teams gan sicrhau nad oedd pwysau ar y plant a rhieni/gwarcheidwaid, ond ar yr un pryd yn cynnig cyfle i sicrhau parhad yn addysg y disgyblion a chefnogaeth ar gyfer hynny.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Wrth i'r clo mawr ddechrau llacio, gan arwain yn y pendraw at ail-agor yr ysgol yn rhannol yn nhymor yr haf, roedd yn amlwg i mi bod gwaith paratoi y staff yn hynod o drylwyr a phawb yn ymdrechu i sicrhau awyrgylch mor naturiol a phosib, dan yr amgylchiadau, i'r disgyblion wrth iddynt ddychwelyd. Unwaith eto, roedd cyfathrebu'n allweddol wrth groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol - un o'r esiamplau gorau o'r modd effeithiol yr aed ati i wneud hynny yn fy marn i oedd y ffilm yn dangos yr ysgol ar ei newydd wedd, gan ddangos yn glir sut fyddai'r drefn yn gweithio wrth ddechrau nôl. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff am eu hymdrechion yn hyn o beth ac i geisio sicrhau bod dychwelyd i'r ysgol yn brofiad mor hwylus â phosib i'r plant.

Mae'n werth hefyd manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r ysgol am drefnu diwrnod arbennig i ffarwelio â blwyddyn 6 ar ddiwedd tymor yr haf. A hwythau'n gorffen eu hamser yn yr ysgol gynradd a chamu i'r ysgol uwchradd mewn cyfnod mor anarferol, roedd hi'n bwysig eu bod yn gadael yr Ysgol Gymraeg gydag atgof melys. Esiampl arddechog arall o'r modd mae'r staff wedi ystyried lles y disgyblion yn ofalus trwy gydol y cyfnod diwethaf.

Wrth i'r ysgol baratoi i ail-agor yn llawn fis Medi, roedd gofyn am gryn dipyn o gynllunio er mwyn sicrhau'r amgylchedd mwyaf diogel posib i'r disgyblion a staff. Mae'n amlwg fod y tîm wedi rhoi cryn dipyn o feddwl i hyn, ac wedi sefydlu system effeithiol iawn ar gyfer derbyn y disgyblion yn y bore, sicrhau awyrgylch hapus ond diogel yn ystod y dydd, a ffarwelio yn y prynhawn - gan ddiogelu cymuned yr ysgol, a'r gymuned ehangach hyd eithaf eu gallu. Mae sawl rhiant wedi sôn am ba mor effeithiol ydy'r system, ac yn wir, mae'n ymddangos ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar rai o heriau hirdymor yr ysgol gan gynnwys llif traffig.

Rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran y Corff Llywodraethol i gyd wrth fynegi fy niolch i'r Pennaeth a'r holl staff am eu gwaith caled ac ymroddiad i'r ysgol, ac yn bennaf oll am eu hymrwymiad i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael y profiadau gorau posib, hyd yn oed dros gyfnod mor heriol a'r un rydym wedi profi eleni.

Rydym yn achub ar bob cyfle i bwysleisio nodau'r Ysgol – Cymreictod, Parchu ein gilydd a Gwneud ein gorau glas – ac mae'n amlwg bod y rhain yn parhau i ddylanwadu'n bositif ar y disgyblion ac yn cael effaith ar bawb sy'n gysylltiedig â'r sefydliad unigryw hwn. Hoffwn ddymuno'n dda i Kate Woodward, Cadeirydd newydd y Corff Llywodraethol.

Yn gywir, Owain Schiavone

# Rheolau ar gyfer disgyblion ysgol
## Rules for school pupils

**Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, o ddydd Gwener 23 Hydref, ni allwch gyfarfod tu mewn na thu allan gyda phobl nad ydych chi'n byw gyda.**

Following Welsh Government's announcement, from Friday 23 October, you cannot meet indoors or outdoors with members who are not in your household.

### Gyda'n gilydd/ Staying together

1 person wedi heintio/
1 person infects

2.5 person wedi heintio//
2.5 people infected

406 person wedi heintio/
406 people infected

NAWR/ NOW

MEWN 5 DIWRNOD/
IN 5 DAYS

AR ÔL 30 DIWRNOD/
AFTER 30 DAYS

### Ar wahân/ Staying apart

1 person wedi heintio/
1 person infects

1.25 wedi heintio/
1.25 people infected/

15 person wedi heintio/
15 people infected

- **Cadwch bellter cymdeithasol.**
- **Golchwch eich dwylo'n rheolaidd.**
- **Gwisgwch fasg mewn mannau dan do.**
- **Arhoswch adref os oes gennych symptomau.**

- Keep a social distance.
- Wash your hands regularly.
- Wear a mask in indoor public places.
- Stay at home if you have symptoms.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE
Caru·Love Ceredigion

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

**Thank you for your co-operation as we continue to respond to the challenge of the coronavirus.**

**Reminder -** thank you for your co-operation in bringing your children to school in the morning and collecting them at the end of the day. **I would like to remind you to adhere to the national guidelines when leaving the school area and avoid congregating in groups (please see poster at the end of this letter)**

**Children in Need -** pupils are invited to wear fancy dress to school on Friday, November 13th. If you wish you can send any contribution in an envelope towards the appeal. Each class will have a dedicated cash collection box to ensure appropriate arrangements for health and safety when handling money.

**Chair of Governors' latest report to parents / guardians -** Owain Schiavone's term of office as Chair of Governors has come to an end, I would like to thank him for his co-operation and support over the last two years. Below is the opening section of the Chairman's report - the report is available in its entirety in the Parents>Governors section of the school website.

**If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately**

**R C Williams, Headteacher, 06/11/2020** prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

I am delighted as Chair of the Governing Body to present Ysgol Gymraeg Aberystwyth's annual report.

I would like to take the opportunity to thank the Headteacher, Deputy Headteacher, all teachers, learning assistants, auxiliary staff, parents/guardians and of course the pupils for their hard work during the year, and for playing their part in the school's continued success.

It would of course be impossible to present this report without acknowledging the exceptional situation the school, like all others, has faced this year. But there is also an opportunity to express pride in the way the school has succeeded in coping with these unusual circumstances, overcoming the challenges that have arisen in a professional and effective way.

I was especially proud of the way the team communicated regularly with pupils, parents and guardians, at the start of the lockdown, trying to alleviate concerns as much as possible on the one hand, and distributing useful educational materials for working at home on the other. As the lockdown continued, an effective system of communication and work-sharing was developed through Teams, ensuring that no pressure was put on the children and parents/guardians, whilst also offering the opportunity to ensure the pupils' education continued, along with the necessary support.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

As the lockdown started to ease, eventually leading to the partial re-opening of the school during the summer term, it was obvious to me that the staff's preparations were incredibly thorough, with everyone striving to ensure as natural an atmosphere as possible, under the circumstances, for the pupils as they returned. Once again, communication was critical when welcoming the children back to school - one of the best examples of the effective way in which this was achieved, in my opinion, was the film showing the school sporting its new look, illustrating clearly how the new procedure would work on their return. I would like to thank the staff for their efforts in this respect and for trying to ensure that the return to school was as pleasant an experience as possible for the children.

It is also worth taking the opportunity to thank the school for organising a special day to say good-bye to year 6 at the end of the summer term. Because they were leaving primary school and moving on to secondary school during such an unusual time, it was important that they left Ysgol Gymraeg with fond memories.
Another excellent example of the careful consideration the staff have given to pupil welfare throughout the recent period.

As the school prepared to fully re-open in September, a considerable amount of planning was needed to ensure the safest possible environment for pupils and staff. The team had obviously put a lot of thought into this, and established a very efficient system for receiving pupils in the morning, ensuring a happy but safe atmosphere during the day, and saying good-bye in the afternoon - thereby protecting the school community and the wider community to the utmost of their ability. A number of parents have mentioned the effectiveness of the system, and indeed it appears to have had a positive effect on some of the school's long-term challenges, including traffic flow.

I'm sure I speak on behalf of the whole Governing Body in expressing my thanks to the Headteacher and all the staff for their hard work and dedication to the school, and above all for their commitment in ensuring all pupils get the best possible experiences, even during as challenging a period as the one we have experienced this year.

We take every opportunity to emphasise the school's goals - Welshness, Respecting each other and Doing our very best - and it is obvious that these continue to be a positive influence on the pupils and have an effect on everyone associated with this unique establishment. I would like to give Kate Woodward my best wishes in her role as the new Chair of the Governing body.

**Yours sincerely, Owain Schiavone**

# Rheolau ar gyfer disgyblion ysgol
# Rules for school pupils

**Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, o ddydd Gwener 23 Hydref, ni allwch gyfarfod tu mewn na thu allan gyda phobl nad ydych chi'n byw gyda.**

Following Welsh Government's announcement, from Friday 23 October, you cannot meet indoors or outdoors with members who are not in your household.

| Gyda'n gilydd/ Staying together | | Ar wahân/ Staying apart |
|---|---|---|
| 1 person wedi heintio/ 1 person infects | NAWR/ NOW | 1 person wedi heintio/ 1 person infects |
| 2.5 person wedi heintio// 2.5 people infected | MEWN 5 DIWRNOD/ IN 5 DAYS | 1.25 wedi heintio/ 1.25 people infected/ |
| 406 person wedi heintio/ 406 people infected | AR ÔL 30 DIWRNOD/ AFTER 30 DAYS | 15 person wedi heintio/ 15 people infected |

- **Cadwch bellter cymdeithasol.**
- **Golchwch eich dwylo'n rheolaidd.**
- **Gwisgwch fasg mewn mannau dan do.**
- **Arhoswch adref os oes gennych symptomau.**

- Keep a social distance.
- Wash your hands regularly.
- Wear a mask in indoor public places.
- Stay at home if you have symptoms.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Caru·Love Ceredigion